OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 106 (Cy.20)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2009

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006 (O.S. 2006/116 (Cy.14) a ddiwygiwyd eisoes gan O.S. 2006/617 (Cy.69), O.S. 2006/2928 (Cy. 263), O.S. 2006/3256 (Cy.296), O.S. 2007/3171 (Cy.277) ac O.S. 2008/1806 (Cy.174)) ("y Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid").

**2**. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu—

(a) Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/76/EC sy'n diwygio Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid ( OJ Rhif L198, 26.7.2008, t.37); a

(b) Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/82/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2008/38/EC o ran bwydydd anifeiliaid a fwriedir ar gyfer cefnogi swyddogaeth arennol mewn achos o annigonolrwydd cronig yr arennau (OJ Rhif L202, 31.7.2008, t.48).

**3**. O ran paragraff 2(a), mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 5 (cyfyngiadau rhagnodedig ar gyfer sylweddau annymunol) i'r Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid. Mae'r newidiadau'n ymwneud â fflworin, cynhyrchion planhigion penodol a DDT.

**4**. O ran paragraff 2(b), mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r tabl yn Atodlen 7 (bwydydd anifeiliaid a ganiateir at ddibenion maethiadol penodol a darpariaethau ynghylch eu defnyddio) i'r Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid, drwy ddisodli'r cofnodion presennol ynghylch cefnogi swyddogaeth arennol mewn achos o annigonolrwydd cronig yr arennau.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 106 (W.20)

# AGRICULTURE, WALES

## The Feeding Stuffs (Wales) (Amendment) Regulations 2009

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations further amend the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/116 (W.14) as already amended by S.I. 2006/617 (W.69), S.I. 2006/2928 (W. 263), S.I. 2006/3256 (W.296), S.I. 2007/3171 (W.277) and S.I. 2008/1806 (W.174)) ("the Feeding Stuffs Regulations").

**2**. These Regulations provide for the implementation of—

(a) Commission Directive 2008/76/EC amending Annex I to Directive 2002/32/EC of the European Parliament and of the Council on undesirable substances in animal feed (OJ No. L198, 26.7.2008, p.37); and

(b) Commission Directive 2008/82/EC amending Directive 2008/38/EC as regards feeding stuffs intended for the support of the renal function in case of chronic renal insufficiency (OJ No. L202, 31.7.2008, p.48).

**3**. In respect of paragraph 2(a), these Regulations amend Schedule 5 (prescribed limits for undesirable substances) to the Feeding Stuffs Regulations. The changes relate to fluorine, certain plant products and DDT.

**4**. In respect of paragraph 2(b), these Regulations amend the table in Schedule 7 (permitted feeding stuffs intended for particular nutritional purposes and provisions relating to their use) to the Feeding Stuffs Regulations, by replacing the existing entries relating to the support of renal function in cases of chronic renal insufficiency.

**5**. Ni chafodd asesiad effaith llawn ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sectorau preifat na gwirfoddol.

**5**. A full impact assessment has not been prepared for these Regulations as no impact on the voluntary or private sectors is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 106 (Cy.20)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Ionawr 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *27 Ionawr 2009* |
| *Yn dod i rym* | *20 Chwefror 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 68(1), 69(1), 74A ac 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**).

Bu ymgynghori yn ystod gwaith paratoi'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 neu, fel y bo'n briodol, o Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 20 Chwefror 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1970 p.40. Mae adran 66(1) yn cynnwys diffiniadau o'r ymadroddion "the Ministers", "prescribed" a "regulations". Diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S.1978/272), Atodlen 5, paragraff 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Mewnosodwyd adran 74A gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Atodlen 4, paragraff 6.

(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 202/2008 (OJ Rhif. L60, 5.3.2008, t.17).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 106 (W.20)

# AGRICULTURE, WALES

## The Feeding Stuffs (Wales) (Amendment) Regulations 2009

| | |
|---|---|
| *Made* | *24 January 2009* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *27 January 2009* |
| *Coming into force* | *20 February 2009* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 66(1), 68(1), 69(1), 74A and 84 of the Agriculture Act 1970(**1**).

There has been consultation during the preparation of these Regulations in accordance with the requirements of section 84(1) of the Agriculture Act 1970 or, as appropriate, of Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council(**2**) laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety.

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of these Regulations is The Feeding Stuffs (Wales) (Amendment) Regulations 2009 and they come into force on 20 February 2009.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(**1**) 1970 c.40. Section 66(1) contains definitions of the expressions "the Ministers", "prescribed" and "regulations". The definition of "the Ministers" was amended by the Transfer of Functions (Wales) (No. 1) Order 1978 (S.I. 1978/272), Schedule 5, paragraph 1. Functions of "the Ministers", so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672 and thereafter transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32). Section 74A was inserted by the European Communities Act 1972 (c. 68), Schedule 4, paragraph 6.

(**2**) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Regulation (EC) No. 202/2008 (OJ No. L60, 5.3.2008, p.17).

**Diwygio Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006**

**2**.—(1) Diwygier Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006(**1**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn Atodlen 5 (cyfyngiadau rhagnodedig ar gyfer sylweddau annymunol) —

(a) ym Mhennod A, yn y cofnodion ynghylch fflworin—

(i) ar ôl y cofnod olaf yng ngholofn 2 ychwaneger "— complete feeding stuffs for fish", a

(ii) ar ôl y cofnod olaf yng ngholofn 3 ychwaneger "350";

(b) ym Mhennod C —

(i) hepgorer y cofnodion ynghylch *Apricots, Bitter almond and Camelina*;

(ii) ar gyfer y cofnodion ynghylch *Weed seeds etc*. rhodder y canlynol —

| *Column 1 Undesirable substances* | *Column 2 Products intended for animal feed* | *Column 3 Maximum content in mg/kg of feeding stuffs referred to a moisture content of 12%* |
|---|---|---|
| Weed seeds and unground and uncrushed fruits containing alkaloids, glucosides or other toxic substances, separately or in combination including: | All feeding stuffs | 3000 |
| *Datura stramonium* L. | | 1000 |

(c) ym Mhennod D, yn y cofnodion ynghylch DDT yng ngholofn 1, yn lle'r ymadrodd mewn cromfachau rhodder "(sum of DDT-, DDD- (or TDE-) and DDE-isomers, expressed as DDT)".

(3) Yn Atodlen 7 (bwydydd anifeiliaid a ganiateir at ddibenion maethiadol penodol a darpariaethau ynghylch eu defnyddio), yn lle'r cofnodion ynghylch cefnogi swyddogaeth arennol mewn achos o

**Amendment of the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006**

**2**.—(1) The Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006(**1**) are amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) In Schedule 5 (prescribed limits for undesirable substances) —

(a) in Chapter A, in the entries relating to fluorine—

(i) after the last entry in Column 2 add "— complete feeding stuffs for fish", and

(ii) after the last entry in Column 3 add "350";

(b) in Chapter C —

(i) omit the entries relating to *Apricots, Bitter almond and Camelina*;

(ii) for the entries relating to *Weed seeds etc*. substitute the following —

| *Column 1 Undesirable substances* | *Column 2 Products intended for animal feed* | *Column 3 Maximum content in mg/kg of feeding stuffs referred to a moisture content of 12%* |
|---|---|---|
| Weed seeds and unground and uncrushed fruits containing alkaloids, glucosides or other toxic substances, separately or in combination including: | All feeding stuffs | 3000 |
| *Datura stramonium* L. | | 1000 |

(c) in Chapter D, in the entries relating to DDT in column 1, for the expression in parenthesis substitute "(sum of DDT-, DDD- (or TDE-) and DDE-isomers, expressed as DDT)".

(3) In Schedule 7 (permitted feeding stuffs intended for particular nutritional purposes and provisions relating to their use), for the entries relating to the support of renal function in the case of chronic renal

(**1**) O.S. 2006/116 (Cy. 14) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/617 (Cy.69), O.S. 2006/2928 (Cy. 263), O.S. 2006/3256 (Cy. 296), O.S. 2007/3171 (Cy. 277) ac O.S. 2008/1806 (Cy. 174).

(**1**) S.I. 2006/116 (W. 14) as amended by S.I. 2006/617 (W.69), S.I. 2006/2928 (W. 263), S.I. 2006/3256 (W. 296), S.I. 2007/3171 (W. 277) and S.I. 2008/1806 (W. 174).

annigonolrwydd cronig yr arennau yn rhes gyntaf y tabl ym Mhennod A, rhodder y cofnodion a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

insufficiency in the first row of the table in Chapter A, substitute the entries set out in the Schedule to these Regulations.

*Gwenda Thomas*

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

24 Ionawr 2009

Under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

24 January 2009

Rheoliad 2(3) Regulation 2(3)

YR ATODLEN

SCHEDULE

Cofnodion sydd i'w rhoi yn lle'r cofnodion ynghylch cefnogi swyddogaeth arennol mewn achos o annigonolrwydd cronig yr arennau yn Atodlen 7 i Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

Entries to be substituted for the entries relating to the support of renal function in the case of chronic renal insufficiency in Schedule 7 to the Feeding Stuffs (Wales) Regulations 2006

| *Particular nutritional purpose* | *Essential nutritional characteristics* | *Species or category of animal* | *Labelling declarations* | *Recommended length of time for use* | *Other provisions* |
|---|---|---|---|---|---|
| Support of renal function in case of chronic renal insufficiency[1] | Low level of phosphorus and restricted level of protein but of high quality | Dogs and cats | — Protein source(s)<br>— Calcium<br>— Phosphorus<br>— Potassium<br>— Sodium<br>— Content of essential fatty acids (if added) | Initially up to 6 months[2] | Indicate on the package, container or label: "It is recommended that a veterinarian's opinion be sought before use or before extending the period of use".<br><br>Indicate in the instructions for use: "Water should be available at all times". |
| | or<br>Reduced phosphorus absorption by means of incorporation of Lanthanum carbonate octahydrate | Adult cats | — Protein source(s)<br>— Calcium<br>— Phosphorus<br>— Potassium<br>— Sodium<br>— Lanthanum carbonate octahydrate<br>— Content of essential fattyacids (if added) | Initially up to 6 months[2] | Indicate on the package, container or label: "It is recommended that a veterinarian's opinion be sought before use or before extending the period of use".<br><br>Indicate in the instructions for use: "Water should be available at all times". |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 106 (Cy.20)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2009

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 106 (W.20)

## AGRICULTURE, WALES

The Feeding Stuffs (Wales) (Amendment) Regulations 2009

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£5.00**

W422/02/09 ON